ATODLEN 1

GORCHMYNION ETC. SY'N YMWNEUD Â GOFALU AM BLANT

Penderfyniadau mewn perthynas ag addasrwydd P i ddarparu gofal

23. Gwrthod ar unrhyw adeg gais P i gofrestru mewn perthynas â chartref gwirfoddol neu gartref plant, neu ganslo cofrestriad cartref gwirfoddol neu gartref plant a oedd yn cael ei gynnal gan P neu yr oedd P fel arall yn ymwneud â'i reoli, neu yr oedd gan P unrhyw fuddiant ariannol ynddo, o dan, yn ôl y digwydd—

(a) paragraff 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 1989(**1**),

(b) paragraff 1 neu 4 o Atodlen 6 i Ddeddf 1989(**2**),

(c) adran 127 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**3**),

(d) erthygl 80, 82, 96 neu 98 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995(**4**),

(e) Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001(**5**) (gwasanaethau cartrefi gofal),

(f) paragraff 2 neu 4 o Atodlen 6 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001 (Deddf Tynwald)(**6**), neu

(g) Rhan 5 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010(**7**).

(**1**) Fe'i diddymwyd o ran Cymru a Lloegr gan adran 117(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac Atodlen 6 iddi.
(**2**) Fe'i diddymwyd o ran Cymru a Lloegr gan adran 117(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac Atodlen 6 iddi.
(**3**) Diddymwyd adran 127 gan erthygl 185(2) o O.S. 1995/755 (G.I. 2) ac Atodlen 10 iddo.
(**4**) Diddymwyd erthyglau 80, 82, 96 a 98 gan erthygl 50(2) o O.S. 2003/431 (G.I. 9) ac Atodlen 5 iddo.
(**5**) 2001 dsa 8. Diddymwyd Rhan 1 gan adran 106 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010 (dsa 8) ac Atodlen 14 iddi, gydag arbedion a bennir yn erthygl 2 o O.S.A. 2011/169.
(**6**) Diddymwyd Atodlen 6 gan adran 199 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal 2013 (Deddf Tynwald) (p. 10).
(**7**) 2010 dsa 8.